

Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

---

# Pwysau costau byw

Gorffennaf 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddEconomi](http://www.senedd.cymru/SeneddEconomi)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddEconomi](https://twitter.com/SeneddEconomi)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Pwysau costau byw

Gorffennaf 2022



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddEconomi](http://www.senedd.cymru/SeneddEconomi)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:  
Paul Davies AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**  
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**  
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**  
Llafur Cymru



**Sarah Murphy AS**  
Llafur Cymru

# Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd .....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion .....</b>	<b>7</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>11</b>
<b>2. Cymorth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU .....</b>	<b>12</b>
<b>3. Pwysau ar aelwydydd.....</b>	<b>14</b>
Effaith ar wahanol grwpiau .....	15
Safbwynt y Pwyllgor .....	16
Safbwyntiau ar gymorth costau byw .....	17
Gwell ymwybyddiaeth a mwy o bobl yn manteisio ar gymorth.....	18
Safbwynt y Pwyllgor .....	19
Bylchau sy'n weddill o ran Cymorth Llywodraeth Cymru .....	20
Safbwynt y Pwyllgor .....	21
<b>4. Pwysau ar y gweithlu .....</b>	<b>23</b>
Y sefyllfa ansicr o ran cyflogaeth a hawliau gweithwyr .....	23
Yr effaith ar lesiant gweithwyr .....	24
Talu'r cyflog byw gwirioneddol.....	25
Deall economi a marchnad lafur y dyfodol.....	27
Safbwynt y Pwyllgor .....	28
<b>5. Yr effaith ar gymunedau gwledig.....</b>	<b>31</b>
Y premiwm gwledig: seilwaith gwael a thlodi tanwydd .....	31
Mannau i gadw'n gynnes .....	33
Ymchwil.....	33
Safbwynt y Pwyllgor .....	33
<b>6. Pwysau ar fusnesau .....</b>	<b>35</b>
Cymorth i fusnesau .....	35

Rhyddhad ardrethi busnes .....	37
Safbwynt y Pwyllgor .....	38
<b>Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar .....</b>	<b>40</b>
<b>Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>42</b>
Gwybodaeth ychwanegol .....	43

---

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'r cynnydd mewn costau byw yn cael ei deimlo ledled Cymru ac mae'n effeithio ar bron bob rhan o fywyd cyhoeddus a phreifat. Gan nad yw cyflogau ac incwm sefydlog yn ymestyn mor bell ag yr oedd, mae pobl yn ei chael hi'n anodd dal dau ben llinyn ynghyd ac yn aml yn gorfod gwneud dewisiadau anodd. Mae busnesau'n wynebu ergyd ddwbl yn yr ystyr eu bod yn wynebu costau uwch yn ogystal â llai o gwsmeriaid wrth i ddefnyddwyr leihau eu gwariant dewisol. Mae'r holl faterion hyn yn amlycach mewn cymunedau gwledig sydd eisoes yn wynebu "premiwm gwledig" am nwyddau a gwasanaethau.

Er bod yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r cymorth cynyddol sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae llawer o aelwydydd ledled Cymru yn dal i'w chael hi'n anodd. Mae bylchau hefyd yn y ddarpariaeth y mae rhai aelwydydd yn syrthio drwyddynt. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl i'w gael. Dau o'n hargymhellion allweddol yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n galed i fod yn siŵr bod y rhai sy'n cael trafferth yn ymwybodol o'r holl gymorth sydd ar gael, a phan y mae'n rheoli'r cymorth, dylai symleiddio'r broses i gael y cymorth.

Mae cyfraddau uchel o chwyddiant yn taro'r rhai sydd ar y cyflogau isaf galetaf, ac mae hyn yn peri risg wirioneddol i agenda gwaith teg Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei 'phŵer meddal' sylweddol i wella telerau ac amodau ar gyfer y rhai sy'n cael y cyflogau isaf, er enghraifft drwy wella tâl salwch gweithwyr gofal cymdeithasol. Er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio polisiau yn y dyfodol, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwil fanwl i'r farchnad lafur i ddeall materion fel tlodi mewn gwaith ac anweithgarwch economaidd uchel yng Nghymru yn well.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr am effaith costau cynyddol tanwydd gwresogi. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu cyn y gaeaf i gefnogi pobl sy'n byw mewn eiddo gwledig oddi ar y grid. Teimlwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi cymunedau gwledig i fynd i'r afael â'r 'premiwm gwledig'.

Mae'r Aelodau'n teimlo bod angen cymorth brys ar y busnesau y mae costau byw uwch yn effeithio arnynt fwyaf, yn debyg i'r hyn a roddwyd yn ystod y pandemig. Mae heriau a chyfleoedd yn aml yn dod law yn llaw. Mae chwyddiant mewn prisiau olew a nwy yn cynnig cyfle gwych i annog busnesau i leihau eu hól troed carbon a dod yn fwy effeithlon yn y tymor hir. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu cynllun cymorth i alluogi'r buddsoddiad hwn.

Mae costau byw yn fater trawsbynciol iawn. Dylid ystyried yr adroddiad hwn ochr yn ochr ag ehangder y gwaith sy'n cael ei wneud ar gostau byw ar draws holl bwyllgorau'r Senedd.

**Paul Davies AS,**

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig



## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau allanol i sicrhau bod data cadarn ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol yn cael eu casglu a'u cyhoeddi'n rheolaidd. Dylai ystyried ffyrdd arloesol o wneud prif ddata ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr, er enghraifft datblygu dangosfwrdd neu ddewisiadau eraill. .... Tudalen 16

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig ei Huned Data Cydraddoldeb, sicrhau bod data wedi'u dadgyfuno ar gostau byw ar gyfer Cymru ar gael yn rheolaidd, er mwyn gallu deall a rhoi sylw i effeithiau pwysau costau byw ar wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol a nodweddion gwarchoddedig wrth wneud penderfyniadau polisi. .... Tudalen 16

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei dadansoddiad dosbarthiadol o bwy fydd yn elwa ar ei chymorth costau byw drwy gyhoeddi dadansoddiad o sut mae ei chynlluniau yn cefnogi grwpiau â nodweddion gwarchoddedig fel rhyw, anabledd ac ethnigrwydd. .... Tudalen 17

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data ar y nifer sy'n hawlio'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf cyn gynted â phosibl, wedi'i ddadansoddi fesul awdurdod lleol, ac yn ôl nodwedd warchoddedig lle bo modd. Dylai hefyd fynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi data ar fesurau cymorth costau byw eraill presennol ac yn y dyfodol unwaith y bydd ar gael. .... Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o'i chynlluniau cymorth costau byw cynnar fel y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, a nodi sut mae hyn wedi llywio datblygiad cynlluniau dilynol. .... Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrch hawlio budd-dal 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi'. Dylai nodi manylion y gweithgarwch hyrwyddo a gynllunnir ar gyfer yr ymgyrch hon, a blaenoriaethu cyllid ac adnoddau i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl dros y misoedd nesaf..... Tudalen 20

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r manylion a'r amserlenni ar gyfer y gwaith y bydd ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynyddu Incwm yn ei wneud, ac ymrwmo i gyhoeddi unrhyw allbynnau..... Tudalen 20

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith i ddod â chynlluniau cymorth prawf modd ar gyfer aelwydydd incwm isel at ei gilydd drwy system fudd-daliadau Cymru. Rhaid i'r system newydd sicrhau mwy o gysondeb o ran darpariaeth awdurdodau lleol, a symud tuag at sefyllfa lle mae pobl sydd angen un math o gymorth yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i ffynonellau cymorth eraill y maent yn gymwys i'w cael. .... Tudalen 20

**Argymhelliad 9.** Fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu system fudd-daliadau Cymru, dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddatblygu porth siop-un-stop lle gall aelwydydd ledled Cymru wneud cais yn uniongyrchol i'w hawdurdod lleol am y gwahanol gynlluniau prawf modd sydd ar gael. .... Tudalen 20

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad o ba mor llwyddiannus y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r pecyn cymorth arfer gorau hyd yn hyn, ac ystyried cymryd camau pellach megis datblygu canllawiau statudol os oes tystiolaeth i wneud hynny. .... Tudalen 20

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb ymestyn meini prawf cymhwysedd ei chynlluniau prawf modd i gefnogi aelwydydd incwm isel gyda chostau byw, i gefnogi'r aelwydydd hynny sydd newydd golli allan. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda'i chanfyddiadau. .... Tudalen 21

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd ei Grant Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn yn helpu i liniaru'r gostyngiad mewn Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai; ac a yw'r swm a wariwyd ar y rhaglen hon yn ddigon i liniaru lefelau is o'r Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn llawn. .... Tudalen 22

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i ddarparu cymorth pellach sy'n gysylltiedig â chostau byw i aelwydydd ar ddechrau blwyddyn ariannol 2023-24, a sut y bydd yn blaenoriaethu cymorth i fynd i'r afael â maint y sefyllfa. .... Tudalen 22

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r gwaith o achredu holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel cyflogwyr cyflog byw gwirioneddol, yn enwedig ar gyfer gweithwyr mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru. .... Tudalen 29

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa wersi y gellir eu dysgu o gynlluniau rheoleiddio gwirfoddol ar gyfer cyflogwyr yn y sector preifat fel compact swyddi cymunedol Bae Caerdydd, a sut y gallai gefnogi'r gwaith o ddyblygu manteision y dull hwn mewn rhannau eraill o Gymru. .... Tudalen 29

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i'r farchnad lafur er mwyn deall yn well y rhesymau y tu ôl i gyfraddau uchel o anweithgarwch economaidd; lefelau tlodi mewn gwaith; ac amgylchiadau'r rheini sy'n nodi eu bod yn hunangyflogedig. Ar ôl cael mewnbwn gan Fwrdd Cynghori'r Gweinidog Economaidd, dylai wedyn ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r goblygiadau hirdymor i economi Cymru. .... Tudalen 29

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ystyried beth arall y gellir ei wneud i gefnogi niferoedd cynyddol o weithwyr sy'n profi problemau iechyd meddwl o ganlyniad i bwysau costau byw. .... Tudalen 30

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd rhoi argymhellion adroddiadau pwyllgorau'r Senedd ar dlodi tanwydd a dyfodol lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau costau byw a wynebir gan lawer o weithwyr yng Nghymru, a pha fecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i werthuso cynnydd. .... Tudalen 30

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi mewn perthynas â chyflogau ac amodau'r sector cyhoeddus i gynyddu gwaith teg yng Nghymru gan gynnwys: drwy wella tâl salwch pan fydd ei angen ar weithwyr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddechrau gyda threfniadau tymor hwy ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol; a chefnogi'r rhai sydd â'r enillion isaf drwy setliadau cyflog. .... Tudalen 30

**Argymhelliad 20.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynlluniau cadarn i gefnogi aelwydydd oddi ar y grid drwy'r gaeaf eleni. Dylai hyn gynnwys naill ai ymestyn y gallu i aelwydydd oddi ar y grid gael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol neu'r cynllun Talebau Tanwydd. .... Tudalen 34

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi aelwydydd oddi ar y grid fel yr amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clud. .... Tudalen 34

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ystyried rhaglen debyg i'r hybiau cynnes yn Northumberland, a rhoi rhaglen debyg ar waith os yw'n briodol. .... Tudalen 34

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil fanwl ynghylch y 'premiwm gwledig' ac effeithiau gwahanol y costau cynyddol o fyw mewn cymunedau gwledig a chymunedau trefol. .... Tudalen 34

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu rhaglen cyllid cymorth brys, gan ddefnyddio mecanweithiau tebyg i'r rhaglenni cymorth COVID, i helpu'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf drwy'r cyfnod gwaethaf o ran pwysau costau byw. Gallai hyn fod naill ai ar ffurf grantiau, benthyciadau cost isel neu gyfuniad o'r ddau. .... Tudalen 39

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi busnesau i fuddsoddi mewn arbedion effeithlonrwydd a fydd yn eu helpu i leihau costau tanwydd ac ynni a lleihau eu hól troed carbon. .... Tudalen 39

**Argymhelliad 26.** Dylai Gweinidog yr Economi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd y gwaith o nodi'r cyllid y disgwylir iddo gael ei ddychwelyd o ganlyniad i waith monitro Llywodraeth Cymru ar ôl cwblhau'r cyllid cymorth COVID i fusnesau. .... Tudalen 39

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio rhyddhad ardrethi busnes i gefnogi'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf nes bod chwyddiant yn dychwelyd i lefel sy'n agos at darged Banc Lloegr. .... Tudalen 39

## 1. Cyflwyniad

Casglodd y Pwyllgor safbwyntiau ar effaith economaidd a gwledig yn sgil pwysau costau byw. Roedd yr ymchwiliad yn ceisio adeiladu ar waith sydd wedi'i gynllunio neu sy'n cael ei wneud gan bwyllgorau eraill y Senedd yng nghyswllt costau byw, gan gynnwys tlodi tanwydd, datgarboneiddio tai, dyled ac anghydraddoldebau iechyd meddwl.

**1.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 6 Ebrill a 16 Mai a chlywodd dystiolaeth lafar gan dystion ar 26 Mai 2022, a gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a Gweinidog yr Economi, ar 15 Mehefin 2022. Ceir rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn **Atodiad A** ac **Atodiad B** yr adroddiad hwn.

**2.** Y prif gwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor oedd:

- Beth yw effeithiau economaidd tebygol y wasgfa costau byw?
- Sut mae pwysau costau byw yn effeithio ar y gweithlu, a sut mae hyn yn effeithio ar wahanol grwpiau yn y gweithlu?
- Sut mae heriau costau byw yn effeithio ar fusnesau a sectorau economaidd, a sut mae busnesau yn ymateb iddynt?
- Sut mae'r wasgfa costau byw yn effeithio ar gymunedau gwledig, ac i ba raddau y mae'r pwysau maent yn eu hwynebu yn wahanol i'r pwysau mewn ardaloedd trefol?
- Pa mor effeithiol yw'r mesurau cymorth y mae llywodraethau Cymru a'r DU wedi'u rhoi ar waith, a pha gymorth pellach y gallai fod ei angen dros y misoedd nesaf?

**3.** Trefnodd tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd nifer o grwpiau ffocws ledled Cymru i ddeall profiad bywyd pobl sy'n cael trafferth gyda phwysau costau byw. Mae **adroddiad ar wahân ar y gwaith hwnnw wedi'i gyhoeddi** ar wefan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn a helpu i lywio ei argymhellion i Lywodraeth Cymru.

## 2. Cymorth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

Ar 26 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU nifer o fesurau cymorth costau byw ar gyfer **aelwydydd**. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cymorth ychwanegol sylweddol.

4. Mae'r cymorth gan Lywodraeth y DU yn cynnwys:

- Bydd y Cynllun Cymorth Bil Ynni yn talu £400 i bob cartref ym Mhrydain Fawr;
- Bydd aelwydydd ym Mhrydain Fawr sy'n derbyn budd-daliadau cymwys yn derbyn **taliad o £650** mewn dau randaliad. Bydd y taliad cyntaf yn cael ei wneud i'r rhan fwyaf o bobl ym mis Gorffennaf 2022, a'r ail yn hydref 2022, er y bydd pobl sy'n cael credydau treth yn cael taliad yn hwyrach;
- Bydd pensynwyr yn derbyn taliad ychwanegol o £300 drwy eu **Taliad Tanwydd Gaeaf** ym mis Tachwedd 2022;
- Bydd pobl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys yn cael **taliad ychwanegol** o £150 o fis Medi 2022; a
- Mae Llywodraeth y DU yn darparu £500 miliwn i awdurdodau lleol yn Lloegr i ddarparu cymorth costau byw yn ôl disgrisiwn. Bydd Cymru'n cael 'cyllid canlyniadol Barnett' o ganlyniad i'r cyllid hwn.

5. Mae'r cymorth hwn ar ben benthyciadau cyllidebu sy'n bodoli eisoes, y Taliad Tywydd Oer, y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes, a'r Taliad Tanwydd Gaeaf.

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth penodol pellach:

- Taliadau o £200 i aelwydydd incwm isel drwy'r **Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf**, a chyflwyno **taliad pellach o £200** drwy'r Cynllun Cymorth Tanwydd i'w wneud yn ddiweddarach eleni, ynghyd ag ehangu'r meini prawf cymhwysedd;
- Ad-daliad treth gyngor o £150 i aelwydydd cymwys sy'n byw mewn cartrefi ym mandiau treth gyngor A-D drwy'r **Cynllun Cymorth Costau Byw**, a phob aelwyd sy'n cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;

- Darparu cyllid i awdurdodau lleol i sefydlu cynlluniau cymorth costau byw yn ôl disgresiwn i roi cymorth i aelwydydd sydd angen cymorth nad ydynt yn gymwys ar gyfer y prif **gynllun**;
- Ymestyn hyblygrwydd ar gyfer cymorth brys a roddir drwy'r **Gronfa Cymorth Dewisol** tan fis Mawrth 2023 a pharhau i roi cymorth i gartrefi oddi ar y grid i brynu olew neu Nwy Petrolïwm Hylifedig drwy'r Gronfa honno;
- Datblygu **Cynllun Talebau Tanwydd Llywodraeth Cymru**, a fydd yn darparu cymorth i aelwydydd sydd â mesuryddion rhagdal, ac a fydd yn datblygu cronfa i gefnogi aelwydydd nad ydynt ar y grid;
- **Cynyddu'r cynllun Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad** dros dro i helpu teuluoedd gyda phlant sy'n cael prydau ysgol am ddim gyda phwysau costau byw; a
- Darparu cymorth i **leddfu tlodi bwyd**, i gefnogi partneriaethau bwyd, **a datblygu Grant Atal Digartrefedd Dewisol**.

**7.** Mae'r cynlluniau hyn yn ychwanegol at fesurau hirsefydlog i helpu aelwydydd incwm isel, fel y prydau ysgol am ddim, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

### 3. Pwysau ar aelwydydd

Clywodd y Pwyllgor adroddiadau uniongyrchol pwerus am yr effaith ar lawer o aelwydydd ledled Cymru. Yn benodol, mae costau cynyddol ynni, bwyd a thanwydd yn achosi ansicrwydd a phryder, ac yn cael effaith aruthrol ar fywyd bob dydd.

*"Os byddan nhw (prisiau bwyd) yn parhau i godi, dydw i ddim yn mynd i allu cael dau bryd y dydd. Byddaf ar un pryd y dydd os bydd pethau'n cynyddu mwy."*

**Cyfranogwr yng ngwaith ymgysylltu'r Pwyllgor**

8. Eleni mae'n bosibl y bydd aelwydydd yn wynebu **eu cwmp mwyaf mewn incwm gwario ers dechrau cadw cofnodion** yn y 1950au, yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Dywed y Resolution Foundation fod y cynnydd mewn prisiau ynni a bwyd, y cynnydd mewn trethi a'r gostyngiad mewn cyflogau gwirioneddol yn golygu bod 2022 yn debygol o fod yn **'flwyddyn y wasgfa'**. Cyrhaeddodd chwyddiant 9.4 y cant ym mis Mehefin 2022, **yr uchaf ers 40 mlynedd**, ac mae **Banc Lloegr yn rhagweld y bydd yn cyrraedd 11 y cant yn ddiweddarach eleni**.

9. Canfu adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn gan abrdn Financial Fairness Trust fod **22 y cant o aelwydydd Cymru mewn trafferthion ariannol difrifol ym mis Mehefin 2022**, o gymharu â 13 y cant ym mis Hydref 2021. Ym mis Mehefin 2022, roedd gan Gymru'r ganran uchaf o aelwydydd mewn anawsterau ariannol difrifol o blith unrhyw un o'r gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr.

10. Cyfeiriodd Sefydliad Bevan at **arolwg a gomisiynwyd gan YouGov** y gaeaf diwethaf a ddangosodd fod 165,000 o aelwydydd ledled Cymru weithiau neu bob amser yn cael trafferth fforddio'r pethau sylfaenol. Mae'n ceisio sicrhau cyllid ar gyfer ymchwil mwy diweddar. **Disgrifiodd** Dr Evans ddarlun eithaf 'llwm' sy'n gwaethygu, o chwarter y bobl yn torri'n ôl ar gyfleustodau, traean yn torri'n ôl ar fwyd i oedolion a nifer uwch yn benthyca ac yn mynd i ddyled.



**11.** Cyfeiriodd Dr Hann o Citizens Cymru at **dystiolaeth anecdotaidd** fod teuluoedd yn gwneud penderfyniadau anodd iawn ynghylch a ydyn nhw'n talu eu biliau y mis hwn neu'n bwydo eu plant.

**12. Eglurodd** Jackie Blackwell o Gyngor ar Bopeth Ynys Môn yr effeithiau ar gleientiaid gwasanaethau cymorth:

*"For the first five months of 2022, we've seen records broken for all the wrong reasons. So, for example, every 40 seconds, a Welsh bill payer is making a call to us at the Citizen's Advice service helpline about their fuel bill. Energy debt, as you would expect, has spiked and it's become one of our top issues, alongside the deeply worrying trend of more people being referred for crisis support. So, by that I mean needing referral to food banks and charitable support and grants."*

**13.** Gwnaeth ACE (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái) bwyntiau tebyg mewn **tystiolaeth ysgrifenedig**:

*"It is not a case of simply budgeting better, you can't cook with nothing, you can't buy cheap food with nothing. ACE have seen an unprecedented increase in demand for crisis support. In response to the growing and urgent need we have launched a daily crisis hour to cope with the demand that is growing week on week. We are issuing more food bank vouchers and fuel vouchers than ever before. This is not sustainable. Those who historically would have placed a few extra tins in their trollies for the food bank donation box, are now accessing food banks themselves."*

**14. Mynegodd** aelod o staff Barnardo's Cymru graddau'r anawsterau y mae rhai aelwydydd yn eu hwynebu, a'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth gefnogi teuluoedd:

*"This is not something families can budget their way out of, it has become a way of life. Even the smallest treats – such as a magazine for children – don't exist anymore. We are trying to help people stretch their money as far as possible, all to cover just the most basic of needs. It isn't good enough."*

## Effaith ar wahanol grwpiau

**15. Dywedodd** nifer o dystion wrth y Pwyllgor fod pwysau costau byw yn effeithio ar grwpiau o fewn y boblogaeth yn wahanol. Dywedodd Dr Hann o Citizens Cymru:

*"In terms of the groups that are particularly struggling, it's the lower-middle-income groups, and that is a group that is predominantly female, young workers, ethnic minority workers, those that are subcontracted and on variable jobs. So, really, those who were struggling prior to the pandemic, prior to the cost-of-living crisis, but are increasingly struggling now."*

**16.** Nododd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru **effeithiau ar grwpiau penodol o fenywod**, gan amlygu'r cysylltiad rhwng cyfrifoldebau gofalu a tlodi, ac effeithiau croestoriadol, fel ar gyfer menywod anabl a menywod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd **Chwarae Teg** mai rhieni sengl oedd fwyaf tebygol o fyw mewn tlodi, gyda'r mwyafrif helaeth yn fenywod. Galwodd y ddau sefydliad am ddata mwy cadarn wedi'u dadgyfuno ar effeithiau costau byw cynyddol ar grwpiau penodol, gan alw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi data ar ddangosyddion fel tlodi, amddifadedd a dyled wedi'u dadansoddi yn ôl rhyw.

## Safbwynt y Pwyllgor

**17.** Croesewir bod sefydliadau fel Sefydliad Bevan a Chyngor ar Bopeth wedi gosod sylfaen dystiolaeth ar sut mae pwysau costau byw yn effeithio ar wahanol gymunedau ledled Cymru, ond mae rôl i'r llywodraeth sicrhau bod data rheolaidd ar gael ar lefel Cymru. Mae data costau byw ar gyfer Cymru gan **y Swyddfa Ystadegau Gwladol** yn gymharol gyfyngedig ac yn seiliedig ar feintiau sampl cymharol fach. O ystyried yr effeithiau gwahaniaethol ar wahanol grwpiau, hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gyhoeddi data rheolaidd wedi'i ddadgyfuno ar effeithiau costau byw, gyda'r Uned Ddata Cydraddoldebau â rhan allweddol i'w chwarae.

**18.** Mae **dadansoddiad dosbarthiadol** Llywodraeth Cymru o'i ymateb i bwysau costau byw yn fan cychwyn da i ddangos sut y caiff cymorth ei dargedu at aelwydydd o grwpiau incwm is. Fodd bynnag, dylai fynd ymhellach drwy ddadansoddi'r effaith ar grwpiau penodol â nodweddion gwarchoddedig, er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o sut yr effeithir arnynt.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau allanol i sicrhau bod data cadarn ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol yn cael eu casglu a'u cyhoeddi'n rheolaidd. Dylai ystyried ffyrdd arloesol o wneud prif ddata ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr, er enghraifft datblygu dangosfwrdd neu ddewisiadau eraill.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig ei Huned Data Cydraddoldeb, sicrhau bod data wedi'u dadgyfuno ar gostau byw ar gyfer Cymru ar gael yn rheolaidd, er mwyn gallu deall a rhoi sylw i effeithiau pwysau costau byw ar wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol a nodweddion gwarchoddedig wrth wneud penderfyniadau polisi.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei dadansoddiad dosbarthiadol o bwy fydd yn elwa ar ei chymorth costau byw drwy gyhoeddi dadansoddiad o sut mae ei chynlluniau yn cefnogi grwpiau â nodweddion gwarchoddedig fel rhyw, anabledd ac ethnigrwydd.

## Safbwyntiau ar gymorth costau byw

**19.** Cafodd y Pwyllgor lawer o'i dystiolaeth cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi mesurau cymorth ychwanegol ar 26 Mai. Roedd y dystiolaeth a ddaeth i law cyn y dyddiad hwn yn feirniadol ar y cyfan o ddull Llywodraeth y DU o gefnogi aelwydydd. Gan ymateb i **gyhoeddiad y Canghellor ar 26 Mai**, dywedodd Sefydliad Bevan fod llawer i'w groesawu, gan gynnwys bod cymorth yn cael ei dargedu at gartrefi incwm isel. Fodd bynnag, nododd fylchau hefyd, gan gynnwys problemau hirdymor gyda'r system budd-daliadau fel y cap ar fudd-daliadau a'r Lwfans Tai Lleol. Nododd Sefydliad Bevan fod costau bwyd a thai cynyddol yn effeithio ar aelwydydd yn ogystal â chostau ynni, a bod yna le i gefnogi aelwydydd â'r pwysau hyn.

**20.** Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor fod y cymorth ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn gam i'r cyfeiriad cywir, ac y byddai'n helpu gyda chostau cynyddol. **Amlinellodd hefyd** lle y byddai wedi hoffi i Lywodraeth y DU fod wedi mynd ymhellach neu fabwysiadu dull mwy penodol o ddarparu cymorth:

*"... we still think they can go further with the Warm Home Discount Scheme, and, as we have said repeatedly... the way that the direct funding for households has been provided means that money that should be there for the stated purpose of helping people with fuel poverty and rising costs is going to be wasted. If you can have a second or a third home, you don't need money from the UK Government."*

**21.** Roedd yr ymateb i ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r aelwydydd hynny â'r angen mwyaf yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd cyfranogwyr **yn y grwpiau ffocws** a gynhaliodd y Pwyllgor yn falch o dderbyn taliadau Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, taliadau o £150 drwy'r Cynllun Cymorth Costau Byw, a chymorth i dalu am olew a Nwy Petrolwm Hylifedig (LPG) drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. **Dywedodd** Shavanah Taj o TUC Cymru fod pecyn cymorth gwerth £380 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn swm sylweddol iawn i'w fuddsoddi, er iddi ddweud wedyn ei fod fel ymlaen i'w ddisgrifio fel gosod plastr ar y broblem mewn termau real. **Dywedodd** Dr Evans o Sefydliad Bevan fod y gefnogaeth wedi'i thargedu'n dda.

**22.** **Dywedodd Gweinidog yr Economi** wrth y Pwyllgor fod pŵer gwario Llywodraeth Cymru wedi'i leihau gan fod gwerth cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i erydu gan chwyddiant, ac nad oedd Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi rhagor o gyllid i fynd i'r afael â hyn.

## Gwell ymwybyddiaeth a mwy o bobl yn manteisio ar gymorth

**23.** Cyfeiriwyd at gyflawni cynlluniau Llywodraeth Cymru fel her, a mynegodd llawer bryder ynghylch y nifer isel sy'n manteisio ar gymorth ac roeddent am weld mwy yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn.

**24.** Gwnaeth Jackie Blackwell o Gyngor ar Bopeth Ynys Môn **annog** Llywodraeth Cymru i weithredu i hybu'r nifer sy'n manteisio ar y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf:

*"we should use all routes...this should include reaching out to those on social tariffs for their water or energy who may be eligible for the winter fuel support scheme, and, I think, working with local authorities to better target support where take-up for the last winter fuel support scheme has been low."*

**25.** Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael yn broblem fawr yn ôl sawl tyst.

**Dywedodd** ACE ei fod ond o fudd os ydych chi'n gwybod amdano, a chyfeiriodd at faint o bobl oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol rhag cael cymorth. **Disgrifiodd** Dr Hann o Citizens Cymru fod llawer iawn o waith llenwi ffurflenni cymhleth a biwrocratiaeth i'w wneud, ac roedd yn pryderu am y bobl hynny nad oeddent yn ddigon ffodus i gael teulu, ffrindiau neu aelod o'r gymuned i'w helpu i wneud cais. Dywedodd Dr Evans o Sefydliad Bevan fod awdurdodau lleol dan bwysau, a allai fod yn cyfrannu at ddiffyg hyrwyddo cynlluniau.

**26.** **Dywedodd** Dr Evans y gallai system fudd-daliadau yng Nghymru sy'n fwy cydlynol ar gyfer y gwahanol gynlluniau cymorth prawf modd ar gyfer aelwydydd incwm isel, megis cymorth treth gyngor a chinio ysgol am ddim, helpu i fynd i'r afael â'r broblem o bobl â'r lleiaf o adnoddau y gofynnir iddynt llenwi nifer o ffurflenni:

*"If you're a family in Wales on a low income and you're eligible for the various schemes, and you've got a child aged two and a child aged seven, there are about five or six different support schemes that you are eligible for just from Welsh Government, and there could be another two or three discretionary schemes that you could be eligible for. So, that's potentially eight or nine different application forms that, in some parts of Wales, you might have to be filling in just to get everything you're entitled to. And there's a wealth of evidence that shows that the more people have to fill in forms, the more people have to do that sort of stuff, the less likely they are to claim all of it."*

**27.** Roedd Dr Evans **eisiau gweld** Llywodraeth Cymru yn cyflymu ei gwaith ar y mater hwn, ac yn datblygu canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol, a hawl i'r rhai y mae angen cymorth arnynt allu troi'n ôl os nad yw awdurdodau lleol yn dilyn arfer gorau.

**28.** Ym mis Mawrth, **clwydd** y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog fod rhai awdurdodau lleol yn well nag eraill am 'basbortio' budd-daliadau – byddai bod yn gymwys i gael un math o help yn golygu bod yn gymwys yn awtomatig ar gyfer ffurfiau eraill – ond gallai gallu TG fod yn broblem.

**29.** **Dywedd** y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol hefyd fod mynd i'r afael â'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun, gan gynnwys y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, yn flaenoriaeth, ac y byddai meini prawf cymhwysedd yn cael eu hadolygu a gwersi'n cael eu dysgu o'r cynllun blaenorol. Ar ôl yr Uwchgynhadledd Costau Byw olaf ar 11 Gorffennaf **amlygodd** fod ymgyrch **Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi** Llywodraeth Cymru wedi arwain at dros 8,000 o aelwydydd i gysylltu â llinell gymorth Advicelink Cymru ac yn cael cymorth i hawlio £2.1 miliwn yn ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynyddu Incwm i archwilio ffyrdd pellach o helpu pobl i gael gafael ar yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael.

## Safbwynt y Pwyllgor

**30.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu cadarnhad y bydd data ar y nifer sy'n hawlio rownd gyntaf y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf yn cael ei gyhoeddi. Mae'n bwysig bod data'n cael ei gyhoeddi ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn deall i ba raddau y mae heriau o ran sicrhau niferoedd ar draws gwahanol feysydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn ei Chynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf cychwynnol, a byddai'n annog tryloywder wrth gyhoeddi'r manylion, a sut y bydd yn llywio'r gwaith o gyflawni cynlluniau yn y dyfodol.

**31.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod cyfle i gyflymu'r cynnydd o ran symleiddio prosesau ymgeisio a datblygu mwy o gysondeb yn y modd y mae awdurdodau lleol yn darparu'r ystod o gymorth. Mae'r pecyn cymorth arfer gorau wedi bod ar waith ers dros flwyddyn, felly dylai fod tystiolaeth yn dod i'r amlwg i weld a yw'n ei gwneud yn haws i aelwydydd incwm isel wneud cais am gymorth.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data ar y nifer sy'n hawlio'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf cyn gynted â phosibl, wedi'i ddadansoddi fesul awdurdod lleol, ac yn ôl nodwedd warchoddedig lle bo modd. Dylai hefyd fynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi data ar fesurau cymorth costau byw eraill presennol ac yn y dyfodol unwaith y bydd ar gael.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o'i chynlluniau cymorth costau byw cynnar fel y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, a nodi sut mae hyn wedi llywio datblygiad cynlluniau dilynol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrch hawlio budd-dal 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi'. Dylai nodi manylion y gweithgarwch hyrwyddo a gynllunnir ar gyfer yr ymgyrch hon, a blaenoriaethu cyllid ac adnoddau i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl dros y misoedd nesaf.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r manylion a'r amserlenni ar gyfer y gwaith y bydd ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynyddu Incwm yn ei wneud, ac ymrwymo i gyhoeddi unrhyw allbynnau.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith i ddod â chynlluniau cymorth prawf modd ar gyfer aelwydydd incwm isel at ei gilydd drwy system fudd-daliadau Cymru. Rhaid i'r system newydd sicrhau mwy o gysondeb o ran darpariaeth awdurdodau lleol, a symud tuag at sefyllfa lle mae pobl sydd angen un math o gymorth yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i ffynonellau cymorth eraill y maent yn gymwys i'w cael.

**Argymhelliad 9.** Fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu system fudd-daliadau Cymru, dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddatblygu porth siop-un-stop lle gall aelwydydd ledled Cymru wneud cais yn uniongyrchol i'w hawdurdod lleol am y gwahanol gynlluniau prawf modd sydd ar gael.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad o ba mor llwyddiannus y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r pecyn cymorth arfer gorau hyd yn hyn, ac ystyried cymryd camau pellach megis datblygu canllawiau statudol os oes tystiolaeth i wneud hynny.

## Bylchau sy'n weddill o ran Cymorth Llywodraeth Cymru

**32.** Er y dywedwyd wrth yr Aelodau bod cymorth Llywodraeth Cymru wedi'i dargedu'n gymharol dda at y rhai â'r angen mwyaf, roedd tystiolaeth o nifer o ffynonellau bod graddau pwysau costau byw yn ei golygu bod yn rhaid ymestyn meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth. Dywedodd ACE fod angen i feini prawf cymhwysedd sicrhau y gallai teuluoedd sy'n gweithio a'r rhai a oedd yn ymdopi'n flaenorol hefyd gael cymorth os oedd ei angen arnynt, nid dim ond y rhai sydd yn cael budd-dal cymwys ar hyn o bryd.

**33. Galwodd** Sefydliad Bevan am ychwanegu at y Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai ac ehangu meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mewn ysgolion cynradd byddai hyn nes bod pob plentyn ysgol gynradd yn gymwys i'w derbyn ym mis Medi 2023.

Dywedodd Dr Evans hefyd nad yw aelwydydd â phlant oed ysgol uwchradd sy'n ennill dros £7,400 y flwyddyn drwy waith yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**34.** Ar ôl yr Uwchgynhadledd Costau Byw ym mis Gorffennaf **amlinellodd** y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol lle mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ychwanegol, gan gynnwys £3 miliwn ar gyfer partneriaethau bwyd a £6 miliwn ar gyfer Cronfa Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn i ddarparu cymorth ar unwaith i atal digartrefedd a lliniaru'r gostyngiad mewn cyllid y Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai. Dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn flaenorol fod **Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu £4.1 miliwn at y cyllid ar gyfer y Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn ystod y pandemig**, i liniaru gostyngiadau cyllid Llywodraeth y DU, a galwodd am adfer y gostyngiad cyllid o £2.3 miliwn yn 2022-23.

## Safbwynt y Pwyllgor

**35.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn dangos maint yr her y mae llawer o aelwydydd yn ei hwynebu ar hyn o bryd. I lawer, dyma'r diweddaraf mewn cyfres o heriau, gan fod y rhai sy'n cael eu taro galetaf gan y pandemig bellach ymhlith y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan bwysau costau byw.

**36.** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £380 miliwn mewn cymorth costau byw i aelwydydd, sy'n swm sylweddol. Mae'r Pwyllgor yn deall yr heriau cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu wrth ddarparu cymorth, a bod gwerth gwirioneddol ei chyllideb wedi gostwng £600 miliwn ers yr hydref diwethaf oherwydd chwyddiant. Fodd bynnag, o ystyried difrifoldeb y sefyllfa bresennol, mae'r Aelodau yn ei hannog i ddefnyddio'r dull a ddefnyddir i ehangu meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth tanwydd fel sail i ymestyn meini prawf yn ehangach ar draws ei mesurau cymorth ar gyfer aelwydydd incwm isel, cyn belled ag y bo modd o ystyried y cyfyngiadau ariannol.

**37.** Er y gobeithir y bydd y cymorth ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn lliniaru rhai o effeithiau'r wasgfa costau byw, bydd bylchau o hyd yn y cymorth i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw o fewn ei chyfyngiadau cyllidebol. Mae angen iddi hefyd gynllunio ar gyfer pa gymorth y gallai fod ei angen ar ôl y flwyddyn ariannol hon, o ystyried y disgwylir i chwyddiant barhau i fod yn uwch na'r arfer am lawer o 2023, cyn y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tua 2 y cant erbyn canol 2024.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb ymestyn meini prawf cymhwysedd ei chynlluniau prawf modd i gefnogi aelwydydd incwm isel gyda chostau byw, i gefnogi'r aelwydydd hynny sydd newydd golli allan. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda'i chanfyddiadau.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd ei Grant Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn yn helpu i liniaru'r gostyngiad mewn Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai; ac a yw'r swm a wariwyd ar y rhaglen hon yn ddigon i liniaru lefelau is o'r Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn llawn.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i ddarparu cymorth pellach sy'n gysylltiedig â chostau byw i aelwydydd ar ddechrau blwyddyn ariannol 2023-24, a sut y bydd yn blaenoriaethu cymorth i fynd i'r afael â maint y sefyllfa.



## 4. Pwysau ar y gweithlu

Mae mwy o dlodi mewn gwaith, cyflogau isel a chyflogaeth ansicr yn ychwanegu at y pwysau ar weithwyr Cymru.

*Wel, yr anhawster yw gorfod cyllidebu, ynte? Rydych chi'n ceisio adnabod eich holl dreuliau. Ond os ydych yn gosod eich holl wariant o'ch blaen, boed hynny ar y daenlen neu ar bapur, rydych yn darganfod yn sydyn nad yw eich incwm yn talu am yr holl gostau y mae angen eu talu.*

**Cyfranogwr yng ngwaith ymgysylltu'r Pwyllgor**

**38.** Wrth gyhoeddi ei **Archwiliad o Safonau Byw** ar gyfer 2022 ym mis Gorffennaf, dywed Resolution Foundation fod cynhyrchiant, cyflog ac incwm yn gyffredinol yn cyd-fynd yn agos â'i gilydd, ac mae'n galw am dwf cryf a blaengar o ran incwm i ddiogelu teuluoedd incwm isel i ganolog yn well mewn cyfnod economaidd anodd. **Dywedodd** Sefydliad Bevan wrth y Pwyllgor:

*"Low pay, irregular working hours and unfair terms and conditions are all factors that have contributed to high numbers of people living in poverty despite being in work. When these factors combine with an inadequate social security system and high housing and childcare costs, it is little wonder that so many households were already finding life difficult. It is these workers that are being hardest hit by cost-of-living pressures."*

**39.** **Dywedodd** Shavanah Taj o TUC Cymru, er bod undebau eisoes yn gwybod mai gweithwyr ar incwm is a gâi eu taro waethaf, roeddent bellach yn gweld bod pwysau ar lawer o weithwyr sector cyhoeddus 'yn y canol'. Dywedodd fod pobl yn gweithio oriau hirach ac yn gwneud â nifer o swyddi, gan ddweud bod staff addysgu yn gwneud swyddi ychwanegol gyda'r nos, yn gweithio oriau ychwanegol yn y sector lletygarwch ac yn gwneud shifftiau ychwanegol mewn archfarchnadoedd hefyd. Dywedodd Shavanah hefyd fod undebau'n disgwyl i fwy o bensiynwyr gael eu gorfodi i ddychwelyd i'r gwaith am nad oedd eu pensiynau'n werth cymaint.

### Y sefyllfa ansicr o ran cyflogaeth a hawliau gweithwyr

**40.** **Pwysleisiodd** TUC Cymru pa mor ansicr yw'r sefyllfa o ran cyflogaeth i lawer o bobl sy'n wynebu pwysau costau byw – dim cyfleoedd i fargeinio ar y cyd mewn sectorau fel lletygarwch, contractau dim oriau, dim contractau ysgrifenedig, ac oriau gwaith yn cael eu cadarnhau neu eu

canslo drwy neges destun. Nid oedd digon o ddealltwriaeth, ym marn Shavanah Taj, o'r ansicrwydd hwn a'r goblygiadau o ran cyflwyno prawf bod angen cymorth arnoch – mae angen i'r mecanweithiau ar gyfer darparu cymorth fod yn llawer mwy hyblyg er mwyn ystyried hyn. Galwodd hefyd am system cyflog salwch dda, a phwysleisiodd fod yn rhaid i Gymru gadw at y llwybr o fod yn genedl gwaith teg a pheidio â chamu yn ôl o ran hynny.

**41.** Yn absenoldeb cyflwyno Bil Cyflogaeth y DU ar hawliau gweithwyr, **pwyntiodd** Dr Hann hefyd at gynlluniau gwirfoddol fel y compact swyddi cymunedol yng Nghaerdydd sy'n dod â chyflogwyr lleol cyfrifol at ei gilydd i warantu amodau contract fel isafswm oriau gwaith:

*"I think there are opportunities for the Welsh Government to work in conjunction with those kinds of voluntary regulation schemes when we don't have the capacity to come at the problem any other way."*

**42. Dywedodd** Gweinidog yr Economi ei fod ef a'i gyd-Weinidogion yn cydnabod ac yn cefnogi'r mentrau hyn fel 'cymhelliad tawel'.

## Yr effaith ar lesiant gweithwyr

**43.** Mynegwyd pryder mawr gan TUC Cymru ac eraill am lefelau cynyddol o ddyled a'r effaith ar lesiant meddyliol, gyda **rhai aelodau o'r undeb** yn dechrau gamblo, hyd yn oed, i dalu'r biliau:

*"we've been hearing from people who are saying they are dealing with personal cases from their members who've begun gambling as a means to try and pay off a gas or electricity bill."*

**44. Tynnodd CLILC sylw** hefyd at y risg y bydd mwy o 'gogio' ('cuckooing' yn Saesneg) neu gamfanteisio troseddol wrth i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan gostau byw chwilio am ryddhad ariannol. **Dywedodd** ACE (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái) y bydd teuluoedd yn colli gobaith ac yn troi at fesurau eithafol i ymdopi.

**45. Dywedodd** pobl wrth y Pwyllgor eu bod yn treulio mwy o amser ar gyllidebu bob mis, ond dywedodd un ei fod wedi rhoi'r gorau i restru ei holl wariant ar ei daenlen, a'i fod yn hepgor pethau fel cynnal a chadw ceir neu benblwyddi, *"oherwydd a dweud y gwir, byddai'n rhy frawychus i'w rhoi nhw i gyd i mewn a darganfod nad oes gennyh chi ddigon o incwm i dalu am eich holl gostau."*

**46.** Tynnodd **Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru** a **Home-Start Cymru** sylw at y ffaith bod llawer o weithwyr (gan gynnwys perchnogion busnesau bach a gweithwyr rheng flaen)

eisoes yn profi anawsterau iechyd meddwl oherwydd pwysau yn sgil y pandemig, a disgwylir y bydd pwysau costau byw personol yn gwneud pethau'n waeth.

**47. Clywodd y Pwyllgor yn uniongyrchol** gan weithwyr yr effeithiwyd yn ddifrifol ar eu hiechyd meddwl. Dywedodd un person ei fod yn dioddef o orbryder ac iselder oherwydd ei amgylchiadau a'i fod wedi sylwi ei fod yn cadw draw oddi wrth ei deulu. Fodd bynnag, dywedodd bod cael gafael ar gymorth iechyd meddwl '*bron yn amhosibl*'.

*Rydw i a fy mhartner yn gweithio'n llawn amser ac rydyn ni'n dal i gael trafferth. Rwy'n teimlo'n bryderus iawn. Rwy'n teimlo'n sâl ac ni allaf fwyta. Dydw i ddim hyd yn oed wedi gwneud fy mil trydan yn iawn oherwydd mae'n fy llenwi â braw. Yn llythrennol, dydw i ddim wedi rhoi darlleniad ers mis Ionawr. Rydyn ni'n ennill cyflog da ond ni allwn ymdopi â'r biliau, ac rydyn ni'n llym gyda'r hyn rydyn ni'n ei wario.*

**48.** Mae sefydliadau trydydd sector fel **Cymorth i Fenywod Cymru** yn dweud bod gwasanaethau eisoes o dan bwysau, a thynnodd **Barnardo's Cymru** sylw at y ffaith bod y gwaith o gynorthwyo pobl sy'n ei chael hi'n anodd yn cael effaith emosiynol fawr ar rai aelodau o staff. Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor fod cynlluniau cymorth llesiant gan gyflogwyr yn bwysig iawn. Mae cyrff y trydydd sector hefyd yn pwysleisio effaith cyllid ar allu sefydliadau i barhau i roi cymorth. Cyfeiriodd llawer o'r rhain hefyd at effaith cyflogau isel ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mynegodd Cymorth i Fenywod Cymru bryder penodol ynghylch recriwtio a chadw staff yn y sector.

**49.** Cododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon hefyd am effaith pwysau costau byw ar blant a phobl ifanc, a nododd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** fod iechyd a llesiant gweithwyr yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a llesiant y rhai sy'n dibynnu arnynt (e.e. plant, yr henoed, a' phobl ag anabledau).

## Talu'r cyflog byw gwirioneddol

**50. Anogodd** Dr Hann Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i sicrhau bod mwy o weithwyr yng Nghymru yn cael y cyflog byw gwirioneddol:

*"It is the only wage level that is calculated to take into consideration the cost of living. It is 40p an hour higher than the national living wage, which is not technically a living wage."*

**51. Dywedodd** Dr Hann y gallai fod bwlch rhwng y cyflog byw cenedlaethol a'r cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithiwr incwm isel o £700-800 y flwyddyn a bod y bwlch hwnnw'n adlewyrchu'r anallu i dalu hyd yn oed gostau sylfaenol.

**52.** Roedd nifer o'r rhai a gymerodd ran yng **ngwaith ymgysylltu'r Pwyllgor** yn teimlo bod cyflogau mewn rhannau gwledig o Gymru yn is nag oeddent mewn ardaloedd eraill:

*"Mae'n ymddangos bod pawb fan hyn eisiau talu'r isafswm cyflog yn lle'r cyflog byw. A dydw i ddim yn meddwl bod hyd yn oed y cyflog byw yn gyflog byw. Dydy hynny ddim yn realistig iawn."*

**53. Cyfeiriodd Dr Hann at** y llwyddiannau a welwyd o ran achredu sefydliadau addysg uwch fel cyflogwyr cyflog byw, gyda chyflogau dros 2,000 o bobl yn cynyddu i 'gyflog costau byw', ac awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, lle mae 1,000 o weithwyr wedi cael eu codi uwchlaw'r bwlch hwnnw. Dywedodd y byddai'n hawdd sicrhau cynnydd tebyg ar draws awdurdodau lleol a chodi cyflogau tua 14-15,000 o bobl yng Nghymru i lefel a fyddai'n eu helpu i fynd i'r afael â phroblemau costau byw.

**54.** Mae **tystiolaeth ysgrifenedig** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn nodi bod undebau llafur, o fewn llywodraeth leol, yn pwysu am gyflogau uwch a hefyd am gyfradd uwch fesul milltir i ddigolledu staff sy'n defnyddio eu ceir at ddibenion gwaith, er enghraifft gweithwyr gofal cartref.

**55. Cyfeiriodd** Dr Evans o Sefydliad Bevan hefyd at y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn arbennig lle mae cyflogau isel a chostau tanwydd cynyddol yn ei gwneud hi'n anodd i weithwyr. **Dywedodd** TUC Cymru fod y Fforwm Gofal Cymdeithasol yn fecanwaith da ar gyfer gwneud y cyflog byw gwirioneddol yn bosibl a cheisio sicrhau cysondeb o ran telerau ac amodau, ond aeth ymlaen i ddweud:

*"with the cost-of-living crisis, real pay has fallen by at least £16 a week between March 2021 and March 2022. There are 139,000 more workers on zero-hours contracts, mainly women, as well."*

**56.** Cydnabu Sefydliad Bevan a TUC Cymru fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa anodd iawn oherwydd y tensiwn rhwng codi cyflogau a chynnal gwasanaethau heb gyllid ychwanegol.

**Awgrymodd** Dr Evans fod caffael gan gwmnïau mwy yn faes lle gallai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar ddarparwyr y sector preifat i dalu cyflogau sy'n cyfateb i'r sector cyhoeddus, er mwyn osgoi colli gweithwyr i'r sector cyhoeddus.

**57. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor** fod Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd fel cyflogwr cyflog byw gwirioneddol, ac yn gweithio'n agos gyda Cynnal Cymru fel partner achredu'r Sefydliad Cyflog Byw yng Nghymru:

*"Rydym yn cefnogi'r gwaith maent yn ei wneud wrth hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ac wedi'i helpu i adeiladu capasiti yn eu gallu i gynnwys cyflogwyr yn yr agenda hon. Yn ôl y Sefydliad Cyflog Byw, yn 2021 y gyfran o gyflogeion yng Nghymru a oedd yn derbyn o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol oedd 82.1%. Mae hyn wedi codi o 74.70% yn 2015, gan gau'r bwlch â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU gyfan (82.9%)."*

**58. Dywedodd** fod GIG Cymru hefyd yn gyflogwr cyflog byw gwirioneddol, a byddai ei roi ar waith yn y sector gofal cymdeithasol yn effeithio ar dros 100,000 o weithwyr, a fyddai'n beth da i'r gweithwyr hynny ac i safonau gofal. Dywedodd hefyd fod Gweinidogion Cymru yn ystyried enillion cyfartalog cwmnïau wrth wneud dewisiadau buddsoddi.

**59.** Fodd bynnag, yn debyg i'r hyn a welwyd yn ystod yr ymateb i'r pandemig, nododd yn glir nad oedd Gweinidogion Cymru mewn sefyllfa i ddarparu cymhorthdal cyflog, ac mai dim ond Llywodraeth y DU, i fod yn realistig, oedd â'r gallu i roi mwy o arian yn uniongyrchol ym mhocedi gweithwyr. Pan fo setliadau cyflog y sector cyhoeddus wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru, **dywedodd** y byddai angen cael sgysiau onest ond anodd. Pwysleisiodd: *"What I wouldn't want to see is we sacrifice headcount and the number of jobs to move the pay line forward."*

## Deall economi a marchnad lafur y dyfodol

**60.** Tynnodd yr ymchwiliad undydd sylw at ansicrwydd ynghylch y posibilrwydd o gynnydd o ran diweithdra neu ddirwasgiad, argaeledd cyllid, a'r cyfleoedd ar gyfer twf economaidd. Mae nod o greu swyddi 'gwyrdd' o safon uchel **eisoes wedi'i nodi** ym maes effeithlonrwydd ynni, a dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu cyhoeddi Cynllun Sgiliau Sero Net.

**61.** Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cydnabod y risg o gynnydd o ran diweithdra a chau busnesau oherwydd llai o wariant a cholled economaidd, a allai wedyn arwain at ostyngiadau pellach mewn gwariant. Mynegodd **Chwaraeon Cymru** bryder hefyd y gallai pwysau economaidd atal pobl rhag gwirfoddoli, gan nodi bod gwirfoddolwyr yn cyfrif am 11 y cant o'r gyflogaeth sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru.

**62. Dywedodd** Sefydliad Bevan a Dr Hann ill dau fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i ddeall y lefelau uchel o anweithgarwch economaidd sy'n sail i'r cyfraddau diweithdra isel

presennol ers y pandemig, yn ogystal â lefelau tlodi mewn gwaith a gwir statws y rheini sy'n nodi eu bod yn 'hunangyflogedig'. **Dywedodd** Dr Hann:

*"there needs to be a really nuanced understanding of the data that's surrounding what's happening in the labour market at the minute, because I think there are other groups that need support and consideration as well."*<sup>1</sup>

**63. Nododd** Gweinidog yr Economi rai o'r heriau sy'n wynebu'r farchnad lafur ar ôl y pandemig yn ei farn ef, gan gynnwys y ffaith bod gweithwyr yr UE a gweithwyr hŷn profiadol yn gadael y farchnad heb fod neb i gymryd eu lle, pobl yn lleihau eu horiau, a phrinder swyddi lefel mynediad mewn rhai ardaloedd. Cyfeiriodd at faterion yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar ôl Covid, a thystiolaeth anecdotaidd bod mwy o fenywod na dynion wedi gadael y farchnad swyddi. Dywedodd fod yn rhaid rhoi cyfleoedd i bobl ail-hyfforddi a dychwelyd i weithio, a bod yn rhaid i'r Adran Gwaith a Phensiynau gynnal ei gweithgarwch gan helpu'r rhai a oedd bron yn barod i weithio, a pheidio â rhoi'r gorau wneud hynny.

**64. Dywedodd** y Gweinidog y byddai angen i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu ei hymateb polisi, ond roedd yn ceisio 'rhoi ei harian ar ei gair' er mwyn ymateb i'r heriau presennol. Cyfeiriodd at y Warant i Bobl Ifanc, adduned o ran prentisiaethau, Cyfrifon Dysgu Personol a chynllun ReAct+, gan ddweud bod cynllun newydd y Llywodraeth ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau yn **hollbwysig**:

*"Ar gyfer y rhai sydd bellach o'r farchnad lafur, a'r rhain mae'r argyfwng costau byw wedi cael yr effaith drymaf arnynt, bydd y cynllun yn eu helpu i ymdopi â'r heriau y byddant yn eu hwynebu mewn perthynas â gwaith drwy gydol eu hoes, ac i ymateb i'r heriau hynny – boed hynny drwy hyfforddi, ailhyfforddi, uwchsgilio, newid gyrfa neu ddechrau busnes."*

**65.** Amlygodd y pandemig hefyd y sectorau sydd fwyaf agored i ostyngiad yng ngwariant dewisol pobl – er enghraifft, ar letygarwch – ac fel yr argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad diweddar **Codi'r Bar**, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu at sicrhau gwydnwch y sectorau hynny yn wyneb pwysau costau byw.

## Safbwynt y Pwyllgor

**66.** Mae pwysau costau byw yn cael effaith anghymesur ar y bobl dlotaf, ac ar fathau penodol o weithwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Ond nid dim ond y rhai ar incwm isel iawn sy'n ei chael hi'n anodd a'n dioddef effaith andwyol ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae rhai sectorau economaidd hefyd o dan fwy o bwysau nag eraill, ac mae mwy o risg y bydd cyflogwyr

---

<sup>1</sup> Paragraff 77, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mai 2022

sydd o dan bwysau costau byw yn trosglwyddo'r pwysau hynny i'w gweithwyr. Mae Gweinidog yr Economi wedi dweud bod effaith costau ynni ar fusnesau yn syfrdanol a bod y canlyniadau yn eu sgil yr un mor wael â'r rhai a wynebir gan ddefnyddwyr.

**67.** Mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryderon am beryglon dyledion cynyddol, y mae cyfran sylweddol ohonynt yn cael eu hachosi gan gostau ynni cynyddol, ac effeithiau ar iechyd a llesiant. Mae'r Aelodau'n annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r argymhellion ar gyfer camau gweithredu â blaenoriaeth a wnaed gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn ei adroddiad **Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clud** a gyhoeddwyd ar 18 Mai.

**68.** Er bod llawer o'r mecanweithiau cymorth ariannol a'r hawliau cyflogaeth wedi'u cadw yn ôl gan Lywodraeth y DU, nododd yr ymchwiliad gyfleoedd sylweddol i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar gyflogau ac amodau gweithwyr, a hyrwyddo a darparu cymorth yn effeithlon i'r rhai ar incwm isel i ganolig. Yn ei adroddiad diweddar ar ddyfodol lletygarwch, twristiaeth a manwerthu – **Codi'r Bar** – mae'r Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ymgysylltu â'r sector preifat, drwy drefniadau partneriaeth gymdeithasol, i ddatblygu canlyniadau gwaith teg mewn sectorau lle gall cyflogaeth fod yn ansicr a lle gall cyflogau fod yn isel. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion i sicrhau bod mwy o weithwyr yng Nghymru yn cael cyflog byw gwirioneddol, ac i gefnogi'r sectorau economaidd a'r gweithwyr sy'n arbennig o agored i effaith y costau byw cynyddol.

**69.** Mae'r Pwyllgor hwn yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru am y cynnydd a wneir yn sgil yr holl argymhellion hyn gan bwyllgorau'r Senedd.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r gwaith o achredu holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel cyflogwyr cyflog byw gwirioneddol, yn enwedig ar gyfer gweithwyr mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa wersi y gellir eu dysgu o gynlluniau rheoleiddio gwirfoddol ar gyfer cyflogwyr yn y sector preifat fel compact swyddi cymunedol Bae Caerdydd, a sut y gallai gefnogi'r gwaith o ddyblygu manteision y dull hwn mewn rhannau eraill o Gymru.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i'r farchnad lafur er mwyn deall yn well y rhesymau y tu ôl i gyfraddau uchel o anweithgarwch economaidd; lefelau tlodi mewn gwaith; ac amgylchiadau'r rheini sy'n nodi eu bod yn hunangyflogedig. Ar ôl cael

mewnbyn gan Fwrdd Cyngori'r Gweinidog Economaidd, dylai wedyn ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r goblygiadau hirdymor i economi Cymru.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ystyried beth arall y gellir ei wneud i gefnogi niferoedd cynyddol o weithwyr sy'n profi problemau iechyd meddwl o ganlyniad i bwysau costau byw.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd rhoi argymhellion adroddiadau pwyllgorau'r Senedd ar dlodi tanwydd a dyfodol lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau costau byw a wynebir gan lawer o weithwyr yng Nghymru, a pha fecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i werthuso cynnydd.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi mewn perthynas â chyflogau ac amodau'r sector cyhoeddus i gynyddu gwaith teg yng Nghymru gan gynnwys: drwy wella tâl salwch pan fydd ei angen ar weithwyr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddechrau gyda threfniadau tymor hwy ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol; a chefnogi'r rhai sydd â'r enillion isaf drwy setliadau cyflog.



## 5. Yr effaith ar gymunedau gwledig

Mae cysylltedd bob amser wedi bod yn her yng Nghymru wledig, a hynny'n gorfforol o ran trafndiaeth ac yn dechnolegol o ran y seilwaith cyfathrebu gwael. Ynghyd â stoc tai hŷn, oerach, a llawer o aelwydydd oddi ar y grid, mae'r materion hyn a oedd yn bodoli eisoes yn dwysáu effaith y cynnydd mewn costau byw.

*"Mae'r premiwm gwledig hwnnw wedi bod erioed, rydyn ni'n cyfeirio ato fel cost ychwanegol – y ffaith bod yn rhaid i chi dalu mwy i gynhesu'ch cartref, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'ch car yn fwy aml mwy na thebyg."*

**Cyfranogwr yng ngwaith ymgysylltu'r Pwyllgor**

### Y premiwm gwledig: seilwaith gwael a thlodi tanwydd

**70.** Mae cymunedau gwledig Cymru yn **teimlo effaith y cynnydd yng nghostau byw hyd yn oed yn waeth**. Mae nifer o resymau am hyn: **Tynnodd NFU Cymru sylw at y ffaith bod** stoc tai gwledig yn aml yn llai effeithlon o ran ynni na stoc tai trefol a gall fod yn anodd ac yn gostus i'w gwella o ran effeithlonrwydd ynni, yn enwedig o ran ôl-ffitio â thechnolegau newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Yn ei **thystiolaeth ysgrifenedig**, nododd CLILC fod '*premiwm gwledig*' o ganlyniad i'r pellter y mae'n rhaid cludo nwyddau i gyrraedd ardaloedd gwledig, ac i ddefnyddwyr deithio i gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau.

**71.** Ategodd y **Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru** sylwadau CLILC ar drafndiaeth, gan dynnu sylw at y ffaith y bydd costau tanwydd uwch yn her arbennig i gymunedau gwledig. Dywedodd hefyd ei bod yn anos i fusnesau gwledig addasu i leihau costau, a rhoddodd ambell enghraifft:

*"there would be less by way of EV charging points if this was a way to lower costs either in personal car use, or in terms of freight and deliveries. Broadband and 5G infrastructure may make it more difficult to lower travel costs through tools such as remote working."*

- 72.** Cafodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth ynghylch y premiwm y mae'n rhaid i 275,000 o aelwydydd yng Nghymru wledig ei dalu i wresogi eu cartrefi. Rhoddodd NFU Cymru **grynodeb o'r sefyllfa**, gan nodi, am fod llawer o ardaloedd gwledig oddi ar y grid, eu bod yn dibynnu fwy ar ddulliau gwres canolog sy'n defnyddio olew ac LPG. Ychwanegodd fod y dulliau hynny'n ddrutach na chyflenwadau ynni sydd ar y rhwydwaith ac nid yw'r cap ar brisiau ynni yn gymwys iddynt.
- 73. Dywedodd** Jackie Blackwell o Gyngor ar Bopeth Ynys Môn wrth yr Aelodau fod cleientiaid wedi dweud bod cost olew gwresogi wedi mwy na dyblu dros y ddau fis diwethaf. Soniodd am ei phrofiad personol o brynu tanwydd, gan ddweud wrth yr Aelodau bod trefnu dosbarthiad 500 litr a oedd yn arfer costio tua £340 bellach yn costio tua £750. Aeth ymlaen i egluro y byddai dosbarthiad o'r fath yn para rhwng tri a chwe mis yn dibynnu ar yr aelwyd. Awgrymodd Jackie Blackwell, er bod modd bellach i drefnu cymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer pobl ar LPG ac olew, ei fod yn drefniant dros dro ar hyn o bryd, ac awgrymodd y dylid ei wneud yn fwy parhaol.
- 74. Soniodd** Ceri Cunnington o Gwmni Bro Ffestiniog am ystâd Hafan Deg, lle'r oedd 46 y cant o'r trigolion yn profi tlodi tanwydd cyn y cynnydd sylweddol presennol o ran chwyddiant. Disgrifiodd rai o'r ymdrechion cymunedol sydd ar y gweill i gefnogi pobl mewn tlodi tanwydd ond rhybuddiodd y byddai pethau'n mynd hyd yn oed yn waeth ym mis Hydref, a bod angen uwchraddio'r hen stoc dai leol. Aeth ymlaen i awgrymu bod angen rhwydweithiau gwresogi ardaloedd ynni lleol arnom, a threfniadau gwresogi lleol, gan nodi faint o ynni sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol ond sy'n cael ei allforio o'r gymuned.
- 75.** Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol adroddiad **Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Cynnes**. Mae argymhelliad 21 yr adroddiad yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun effeithlonrwydd ynni i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig ac y dylai'r cynllun hwnnw, ymhlith pethau eraill, fynd i'r afael â'r gyfran uwch o eiddo oddi ar y grid, "sy'n fwy anodd eu trin".
- 76. Dywedodd** y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, wrth Aelodau: *"For the off-grid properties, we are looking at what further we can do to support. "You'll be aware the Minister for Social Justice made an announcement last week on fuel vouchers. Also, we're looking obviously within ... the discretionary assistance fund. There is support that can be included there for off-grid homes particularly, for rural households, with costs of both fuel and if they need a boiler repair, for instance. They could access funding through there."*

## Mannau i gadw'n gynnes

**77. Dywedodd** yr Athro Mark Shucksmith wrth yr Aelodau am raglen lwyddiannus yn Northumberland o'r enw Warm Hubs a greodd fannau y gall pobl fynd iddynt i gael pryd o fwyd poeth, aros yn gynnes, a siarad gyda'i gilydd. Esboniodd eu bod hefyd yn mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a'u bod yn gallu agor y drws i fathau eraill o gymorth oherwydd y gellir trefnu bod cynghorwyr ar ynni, inswleiddio cartrefi neu fudd-daliadau yn dod i'r ganolfan.

**78. Disgrifiodd** Jackie Blackwell brosiect tebyg yn Ynys Môn. Roedd Cyngor ar Bopeth a Chymunedau Ymlaen Môn wedi gweithio gyda'i gilydd i greu Caffi Cwtch, sef lle i bobl na allent fforddio rhoi'r gwres ymlaen fynd gyda'r nos i gadw'n gynnes a chael pryd poeth.

## Ymchwil

**79.** Soniodd Mark Shucksmith hefyd am amrywiaeth o **ymchwil a wnaed yn Lloegr ac yn enwedig yr Alban** ynglŷn â chostau byw. Dywedodd wrth yr Aelodau, o ganlyniad i'r gwaith dadansoddi a wnaed yn yr Alban, fod Llywodraeth yr Alban wedi gallu nodi bod lleoliad yng nghefn gwlad anghysbell yr Alban fel arfer yn ychwanegu 15 i 30 y cant at gyllideb aelwyd, o'i gymharu ag ardaloedd trefol y DU.

## Safbwynt y Pwyllgor

**80.** Mae'r Aelodau'n pryderu'n fawr am gyflymder chwyddiant ar gyfer tanwydd gwresogi ac maent yn teimlo bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu hyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymyriadau Llywodraeth Cymru drwy dalebau a'r Gronfa Cymorth Dewisol, ac mae'n falch o glywed ei bod yn ystyried sut i gefnogi aelwydydd y gaeaf hwn. Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n poeni y bydd cynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd mewn angen dros y gaeaf. Ar hyn o bryd, dim ond 2000 o'r 275,000 o eiddo oddi ar y grid sy'n gymwys i fanteisio ar y cynllun talebau. Mae'r Aelodau'n credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cymorth cadarn ar gael i ddefnyddwyr oddi ar y grid cyn y gaeaf a chefnogi galwad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am gynllun tymor hwy i gefnogi eiddo oddi ar y grid, sy'n anos eu trin.

**81.** Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mawr yn y prosiect 'Warm Hubs'. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y gallai hyn fod yn gyfle da i Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn y trydydd sector gydweithio a chefnogi dinasyddion sy'n agored i niwed i gadw'n gynnes. Mae iddo'r bonws ychwanegol posibl hefyd o helpu defnyddwyr y gwasanaeth i gael cyngor a chyfle i gymdeithasu.

**82.** Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr mewn clywed am yr ymchwil a wnaed yn yr Alban a Lloegr ynghylch y 'premiwm gwledig', sef y gwahaniaeth rhwng y costau byw mewn cymunedau trefol a'r costau byw mewn cymunedau gwledig. Hoffai'r Aelodau weld ymchwil debyg yn cael ei chynnal yng Nghymru gan y byddai dealltwriaeth ddyfnach yn helpu â'r gwaith o ddatblygu polisi yn eu barn hwy.

**Argymhelliad 20.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynlluniau cadarn i gefnogi aelwydydd oddi ar y grid drwy'r gaeaf eleni. Dylai hyn gynnwys naill ai ymestyn y gallu i aelwydydd oddi ar y grid gael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol neu'r cynllun Talebau Tanwydd.

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi aelwydydd oddi ar y grid fel yr amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clud.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ystyried rhaglen debyg i'r hybiau cynnes yn Northumberland, a rhoi rhaglen debyg ar waith os yw'n briodol.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil fanwl ynghylch y 'premiwm gwledig' ac effeithiau gwahanol y costau cynyddol o fyw mewn cymunedau gwledig a chymunedau trefol.

## 6. Pwysau ar fusnesau

Mae cynnydd yn y gost o wneud busnes a gostyngiad yng ngwariant dewisol defnyddwyr yn creu ergyd ddwbl o heriau i fusnesau. I wneud pethau'n waeth, daw'r pwysau hyn ar adeg arbennig o sensitif i lawer o fusnesau nad ydynt wedi adfer yn llawn eto ar ôl y pandemig.

*"Rising inflation has left small businesses with little option but to increase prices: the rising cost of living starts with a cost of doing business crisis, and so it is imperative to take all measures to address the financial barriers of doing business and support our SMEs. Many small businesses rely on discretionary spending. If households have constrained income, it will be these businesses that are likely to suffer first and may be less able to pass the price increases on. The cost of doing business is rising, which in turn will continue to have an impact on the cost of living."*

***Y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB Cymru)***

### Cymorth i fusnesau

**83.** Mae chwyddiant dramatig o ran biliau cyfleustodau yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r cynnydd o ran costau busnes. **Dywedodd** Llŷr ap Gareth o FSB Cymru wrth yr Aelodau fod biliau nwy wedi cynyddu 250 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer busnesau bach. Roedd Leighton Jenkins o CBI Cymru yn rhannu'r pryderon hyn. **Dywedodd** fod biliau ynni cwmniau bedair gwaith yn fwy nag oeddent flwyddyn yn ôl. Credai fod hynny'n bryder penodol i ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni, sy'n ei chael hi'n anodd am eu bod wedi gwneud llawer i liniaru eu costau ynni cyn y pandemig.

**84.** Yn ei **dystiolaeth ysgrifenedig**, anogodd FSB Cymru Lywodraeth Cymru i ddefnyddio unrhyw gyllid cymorth busnes COVID nas gwariwyd i gefnogi busnesau â chostau ynni cynyddol. **Ymhelaethodd Llŷr ap Gareth ar hyn** wrth roi dystiolaeth i'r Pwyllgor, gan ddweud wrth yr Aelodau y gellid addasu'r cyllid at ddibenion gwahanol, gan ddefnyddio'r un mathau o fecanweithiau cyllid grant drwy awdurdodau lleol o bosibl er mwyn cefnogi'r busnesau sydd ei angen fwyaf. Esboniodd mai dyna'r man cychwyn a'i bod braidd yn aneglur faint o gyllid nas gwariwyd oedd ar gael.

**85.** Dywedodd cynrychiolwyr busnes wrth y Pwyllgor y byddai eu haelodau'n croesawu cymorth ar gyfer buddsoddiadau i wella effeithlonrwydd ynni neu ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol e.e. paneli solar. **Dywedodd** Chris Noice o'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra fod cyllid grant ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni i'w groesawu'n llwyr ac y byddai' pobl yn manteisio arno ar unwaith.

**86.** **Dywedodd** Llŷr ap Gareth wrth yr Aelodau: *"Clearly, when we're looking at energy prices, looking at what kind of green energy we can push, providing greater resilience in that respect for the future is surely something we should be looking at doing."*

**87.** Roedd Leighton Jenkins yn cefnogi'r syniad, ond dywedodd wrth yr Aelodau y byddai angen llawer o gyllid a bod angen meddwl yn greadigol. **Dywedodd**: *"I think it would be good to think innovatively about this, whether there's private sector provision, because the Welsh Government is under significant pressure with funding, or whether we can utilise the shared prosperity fund. So, I think the Government would do it if they could afford it, but how do we find the way that we meet the needs that are out there, which are significant?"*

**88.** Ym mis Tachwedd 2021 lansiodd Llywodraeth Cymru **gynllun gwerth £45 miliwn** i helpu busnesau bach a chanolig i dyfu. Un o nodau'r cynllun oedd cefnogi busnesau i ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, cafodd y cynllun **ei dynnu'n ôl** a chafodd y cyllid ei ailddyrranu i dalu am gymorth Omicron.

**89.** **Dywedodd** Sioned Evans wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych ar faint o gyllid adfer COVID yr oedd yn disgwyl na châi ei wario ac y câi ei ddychwelyd. **Dywedodd** Gweinidog yr Economi wrth yr Aelodau y byddai unrhyw gyllid nas gwariwyd yn mynd yn ôl i Drysorlys Cymru, ac yna y byddai'n rhaid cyflwyno achos dros sut i wario'r cyllid hwnnw, gan fod pwysau ar draws y Llywodraeth gyfan.

**90.** Aeth ymlaen i ddweud, fel Gweinidog yr Economi, y byddai am weld cyllid yn cael ei wario i gefnogi busnesau. Ond yn sgil y pwysau eraill ac, fel aelod o'r Llywodraeth gyfan, cydnabu fod yn rhaid i'r Llywodraeth gyfan benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer cyllid a gaiff ei ddychwelyd.

**91.** Yn dilyn hynny, **ysgrifennodd** Gweinidog yr Economi at y Pwyllgor yn datgan: *"Nid oedd y cyllid a dderbyniodd Llywodraeth Cymru oddi wrth Lywodraeth y DU mewn perthynas â COVID-19 wedi'i neilltuo at unrhyw ddiben penodol. Penderfynodd Gweinidogion Cymru sut a ble y câi unrhyw gyllid yng Nghymru ei flaenoriaethu a'i wario."* Aeth ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi gwario £200 miliwn i gefnogi economi Cymru drwy'r pandemig yn

2021/22 a "hyd yn hyn, ni ddychwelwyd unrhyw gyllid yn ymwneud ag adfer busnesau i Drysorlys Cymru nac i Drysorlys EM ar gyfer ei ailddyrranu."

## Rhyddhad ardrethi busnes

**92.** Clywodd yr Aelodau alwadau i ostwng neu rewi ardrethi busnes. **Dywedodd** Chris Noice wrth yr Aelodau:

*"we're potentially heading into a really problematic business rates environment in the next year. So, with the multiplier looking like it could be 10 per cent or higher come September for the following year's business rates increase, that's particularly problematic and we'd like to see that either frozen or capped, or dealt with in some way to give businesses a bit more certainty."*

**93.** Yn ei **dystiolaeth ysgrifenedig**, anogodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru Llywodraeth Cymru i ailystyried a oes modd gostwng cost busnes. **Ymhelaethodd Llŷr ap Gareth ar hyn**, gan ddweud wrth yr Aelodau fod cael gwared ar ryddhad ardrethi busnes yn dod ar ben gyfres o gostau cynyddol gan gynnwys cynyddu prisiau ynni a thanwydd, TAW yn dychwelyd i 20 y cant a'r cynnydd o ran Yswiriant Gwladol.

**94.** Tynnodd **CBI Cymru** a **Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru** sylw hefyd at gymhellion gwrthnysig yn y system ardrethi busnes bresennol. Dywedodd Leighton Jenkins wrth yr Aelodau fod un cwmni roeddent yn gyfarwydd ag ef yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol mewn paneli solar, ond ni wnaeth hynny oherwydd y byddai ei ardrethi busnes yn codi. Roedd pencadlys y cwmni wedi dweud, er mwyn cymeradwyo'r buddsoddiad, y byddai angen i'r cwmni ddod o hyd i arbedion cost a oedd yn cyfateb i'r cynnydd mewn ardrethi busnes.

**95.** Yn adroddiad diweddar y Pwyllgor **Codi'r Bar – Sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu**, argymhellodd yr Aelodau y "dylai Llywodraeth Cymru ystyried effaith anghymesur y pandemig a phwysau costau byw ar y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu mewn perthynas â'r ailbriso ardrethi annomestig a ddaw i rym ym mis Ebrill 2023", a pharhau i drafod gyda Thrysorlys y DU ynghylch newidiadau posibl i lefel TAW yn dyfodol i gefnogi'r sectorau hynny.

**96.** **Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth yr Aelodau** fod Llywodraeth Cymru wedi gostwng ardrethi busnes ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn eleni: "any choice to provide that further support would be welcome, I'm sure, for those businesses, but there's got to be a direct conversation with the Finance Minister about the ability to fund those as well, and as ever we come back to the levers that we've got and the available resources." Dywedodd wrth yr Aelodau ei fod yn gwybod bod hwn yn gyfnod heriol iawn: We fully expect that businesses will ask for

more help" and went on to say Welsh Government face "really difficult choices to make, and they'll be more difficult if we don't see a UK Government response ahead of those challenges being real. I'd much rather see action taken now to help save jobs and businesses, rather than doing something in an emergency way if more jobs and businesses are being lost."

**97. Nododd** Llŷr ap Gareth:

*"there's a need to ease the pressure brought by that constricted bank lending, by looking at low-interest emergency loans funding through, perhaps, the Development Bank of Wales, and looking to see what can be done in that regard, following similar ideas again. For example, DBW had a £100 million pot to use during COVID, and whether it's possible to look at doing that, with the idea that that would, of course, be access to finance rather than grants, so maybe a bit easier to get to."*

## Safbwynt y Pwyllgor

**98.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr am effeithiau costau byw cynyddol ar fusnesau. Er gwaethaf yr heriau costau byw presennol, mae'r Aelodau'n gryf o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion tuag at gyflawni carbon sero net. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod y costau tanwydd cynyddol yn gyfle da i annog busnesau i fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu pŵer adnewyddadwy ar y safle, yn ogystal â mesurau eraill i arbed costau a charbon. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gallai gymell a chefnogi'r mathau hyn o ymyriadau a fydd yn helpu i leddfu'r pwysau presennol ac yn cefnogi busnesau i fod yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

**99.** Er bod yr Aelodau'n deall bod yn rhaid pwysu a mesur blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd wrth benderfynu ar gyllidebau'r Llywodraeth, credant fod angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn ariannol i helpu busnesau i oroesi'r pwysau costau byw presennol er mwyn diogelu swyddi o safon uchel. Gallai hyn fod naill ai ar ffurf grantiau i'r busnesau yr effeithir arnynt waethaf neu fenthyciadau cost isel i gefnogi prosiectau effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

**100.** Mae'r Pwyllgor yn ategu ei alwad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried effaith anghymesur y pandemig a phwysau costau byw ar y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu fel rhan o'r gwaith ailbrisio ardrethi annomestig sydd ar ddod. Cred yr Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru ystyried barhau â'r drefn rhyddhad ardrethi busnes neu gyflwyno trefniadau newydd i'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf tra bod chwyddiant yn parhau i fod yn sylweddol uwch na chyfradd darged Banc Lloegr.



**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu rhaglen cyllid cymorth brys, gan ddefnyddio mecanweithiau tebyg i'r rhaglenni cymorth COVID, i helpu'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf drwy'r cyfnod gwaethaf o ran pwysau costau byw. Gallai hyn fod naill ai ar ffurf grantiau, benthyciadau cost isel neu gyfuniad o'r ddau.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi busnesau i fuddsoddi mewn arbedion effeithlonrwydd a fydd yn eu helpu i leihau costau tanwydd ac ynni a lleihau eu hól troed carbon.

**Argymhelliad 26.** Dylai Gweinidog yr Economi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd y gwaith o nodi'r cyllid y disgwylir iddo gael ei ddychwelyd o ganlyniad i waith monitro Llywodraeth Cymru ar ôl cwblhau'r cyllid cymorth COVID i fusnesau.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio rhyddhad ardrethi busnes i gefnogi'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf nes bod chwyddiant yn dychwelyd i lefel sy'n agos at darged Banc Lloegr.

## Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
<p><b>26 Mai 2022</b></p>	<p><b>Ceri Cunnington,</b> Cwmni Bro Ffestiniog</p> <p><b>Chris Noice,</b> Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra</p> <p><b>Dr Deborah Hann,</b> Citizens Cymru Wales</p> <p><b>Dr Steffan Evans,</b> Sefydliad Bevan</p> <p><b>Dr Llyr ap Gareth,</b> Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru</p> <p><b>Jackie Blackwell,</b> Cyngor ar Bopeth Ynys Môn</p> <p><b>Leighton Jenkins,</b> Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru</p> <p><b>Yr Athro Mark Shucksmith,</b> Prifysgol Newcastle</p> <p><b>Shavanah Taj,</b> Cyngres Undebau Llafur Cymru</p>
<p><b>15 Mehefin 2022</b></p>	<p><b>Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau,</b> Llywodraeth Cymru</p>

Dyddiad	Enw a sefydliad
	<p><b>Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygu Twristiaeth a Chwaraeon,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Victoria Jones, Pennaeth Amaethyddiaeth, Is-adran Datblygu Cynaliadwy,</b> Llywodraeth Cymru</p>

## Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
<b>CoL 01</b>	Y Sefydliad Adeiladu Siartredig
<b>CoL 02</b>	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
<b>CoL 03</b>	National Energy Action Cymru
<b>CoL 04</b>	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
<b>CoL 05</b>	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
<b>CoL 06</b>	Iechyd Cyhoeddus Cymru
<b>CoL 07</b>	Chwarae Teg
<b>CoL 08</b>	Sefydliad Bevan
<b>CoL 09</b>	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru
<b>CoL 10</b>	Barnardo's Cymru
<b>CoL 11</b>	ACE (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái)
<b>CoL 12</b>	Home Start Cymru
<b>CoL 13</b>	Cymorth i Fenywod Cymru
<b>CoL 14</b>	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
<b>CoL 15</b>	Age Cymru
<b>CoL 16</b>	Chwaraeon Cymru
<b>CoL 17</b>	Diabetes UK
<b>CoL 18</b>	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

## Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Costau byw	Gorffennaf 2022
Gwybodaeth ychwanegol gan Citizens Cymru Wales	Mehefin 2022
Erthygl gan Citizens Cymru Wales	Mehefin 2022
Gwybodaeth ychwanegol gan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Mehefin 2022
Gwybodaeth ychwanegol gan Gwmni Bro Ffestiniog	Mehefin 2022